❖ Dydd Nadolig

Er gwaethaf sŵn y ffair a blys y dyrfa,
Mae'r hen addewid yn parhau yn wir,
A'r 'Mab a roddwyd inni' ar ei yrfa,
A neges y Newyddion Da yn glir;
Os bu Meseia Moses a'r proffwydi
Yn wrthodedig pan yn Faban Mair,
Gwawriodd y bore i weithwyr adael rhwydi
A throi'n bysgotwyr dynion ar ei air:
Mae'n dal i wneud pob diwrnod yn Nadolig,
A throi y nos a'i niwl yn olau dydd,
Gan ddryllio delwau ffôl ein byd canolig,
A'i roddion Ef yw cariad, gobaith, ffydd.
Mae gwefr yr ŵyl yn fyw i brofiad sant,
A gŵyr nad coel flynyddol yw i blant.

D. J. Thomas